# ADRODDIAD BLYNYDDOL I RIENI GAN Y CORFF LLYWODRAETHOL

2021- 2022

Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes

# Lles, Dyheadau Uchel a Pherthnasoedd

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes yn unol â Rheoliadau Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen am flwyddyn lwyddiannus ein hysgol. Mae croeso i chi gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr neu'r Pennaeth os ydych am gael rhagor o wybodaeth am unrhyw beth, neu os hoffech gynnig sylw ar yr adroddiad hwn.

Yn gywir

Mike Landers
Cadeirydd.
Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes,
Bryn Celyn,
Caerdydd, CF23 7EH

Rhif ffôn: 029 2073 5723

# Cynnwys

Gair gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol ……………..4
Llywodraethwyr ysgol ………………………………………..6
Gwybodaeth am yr Ysgol ……………………………………7
Datblygiadau Cwricwlaidd a gweithgareddau amrywiol…………………………………………………………..9
Ymweliadau ac Ymwelwyr…………………………………..10
Cysylltiadau â'r gymuned …………………………………..11
Cysylltiadau â rhieni…………………………………………..12
Anghenion Dysgu Ychwanegol…………………………….13
Presenoldeb ac Absenoldebau..…………………………..14
Blaenoraiethau ysgol 2022-2023…………………………15
Datganiad ariannol ……………………………………………..16

## Neges gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol

Mae'n rhoi pleser mawr i mi allu cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr eleni. Mae'n cynnwys y Flwyddyn Ysgol rhwng Medi 2021 a Gorffennaf 2022. Dymuna'r Llywodraethwyr ddiolch i Mrs Fenner a'r holl aelodau o staff yr ysgol am eu harweinyddiaeth gref a'u hymroddiad parhaus, cefnogaeth ac ymrwymiad i'r ysgol a'i disgyblion. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i fy nghyd Lywodraethwyr a roddwyd gymaint o amser drwy gydol y cyfnod hwn.

Roedd y pandemig yn dal i effeithio arnon ni'r flwyddyn academaidd hon. Yn ystod tymor yr hydref 2021 gwelwyd nifer helaeth o absenoldebau ymhlith staff a disgyblion oherwydd materion yn ymwneud â Covid a thrwy gydol tymor yr Hydref a'r Gwanwyn nid oeddem yn gallu dychwelyd i weithgareddau llawn o hyd. Uchafbwynt tymor yr haf oedd arolygiad ysgolion Estyn ym Mai 2022. Cafodd ymroddiad ac ymrwymiad yr holl staff ym Mhen-y-Groes ei amlygu yn yr adroddiad llwyddiannus. Gyda boddhad mawr nodwyd yn yr adroddiad:

*'Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu Cymreictod, amrywiaeth a chyflawniad disgyblion yn arbennig o dda. Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth glir a doeth ac yn parchu ymdrechion pawb sy'n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae'r holl staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles disgyblion ar draws yr ysgol, mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu'n gryf ar agweddau'r disgyblion tuag at ei gilydd ac at bobl eraill o fewn a thu hwnt i'r ysgol. Yn ogystal, mae'r arferion cryf o ran gofalu am les disgyblion yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu hunanhyder a'u hagwedd at fywyd yn gyffredinol. Mae ethos yr ysgol wedi seilio'n gadarn ar weledigaeth gytûn sef lles, dyheadau uchel a pherthnasoedd da. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cryf iawn tuag eu dysgu ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod a'u hysgol. Mae defnydd y disgyblion o'r Gymraeg yn nodwedd gref ac maent yn defnyddio'r iaith yn gwbl naturiol tu fewn a thu allan i'r dosbarth.'*

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi'r gweithgareddau y mae ein disgyblion wedi bod yn eu mwynhau. Mae'n ddathliad o'n llwyddiannau. Mae cymuned ein hysgol yn gweithio tuag at nod gyffredin: rhoi addysg ardderchog i bob plentyn tra'n teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae croeso i chi gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr neu'r Pennaeth os hoffech gael gwybodaeth ychwanegol, neu os hoffech wneud sylw ynghylch yr adroddiad hwn.

Diolchwn i bob rhiant, gwarcheidwaid a gofalwr am eich cefnogaeth barhaus.

Cofion cynnes,

Mike Landers, Cadeirydd y Llywodraethwyr

## Llywodraethwyr Ysgol

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Mr Mike Landers (Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol) | 01.05.2025 |
| Is-Cadeirydd | Dr Mathew Pugh (Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol) | 06.11.2025 |
| Pennaeth | Mrs Anne Fenner | |
| Clerc i'r Llywodraethwyr | Mr Brett Jones<br>Ysgol Gynradd Gymraeg Pen y Groes<br>Pentwyn, Caerdydd<br>CF23 7EH | |
| Rhieni | Mrs Kerri Evans | 04.03.2023 |
| | Mr Duncan Lackie | 20.20.2025 |
| Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol | Mrs Amy Pope | 25.11.2025 |
| Llywodraethwyr Cymunedol | Mr Gary Ellis | 10.12.2026 |
| | Miss Sarah Willis | 01.02.2024 |
| | Mrs Joanne Childs-Hill | 28.11.2026 |
| Staff | Ms Rebeca James (Cynrychiolydd staff addysgu) | 21.02.2025 |
| | Ruth Morgan (Cynrychiolydd staff cynorthwyol) | 16.09.2024 |

Ar hyn o bryd mae 2 swydd rhiant wag.

**Gwybodaeth am y ysgol**

Math: Cynradd
Ystod Oedran: 4-11
Amser dysgu'r wythnos: Cyfnod Sylfaen: 22 awr a 30 munud
Cyfnod Allweddol 2: 22 awr a 55 munud

**Staffio 2022-2023**

| | |
|---|---|
| Meithrin: | Mrs M Williams (A) Mrs K Rees (C) |
| Derbyn: | Miss S Williams (A) Miss M Griffiths (C) |
| Blwyddyn 1: | Mr Jonathan Hughes (A) 1 Arall (Cynorthwydd trwy asiantaeth) |
| Blwyddyn 2: | Miss C Evans (A) Miss L Bailey (C) (hyd at Ion 2023) Mrs L Gallivan (o Ion 2023) |
| Blwyddyn 3 a 4: | Miss C Nolan (A) Mrs C Canham (C) |
| Blwyddyn 5: | Mr R Chappell (A) |
| Blwyddyn 6: | Ms R James (A) |
| CADY : | Ms R James |
| Athrawon CPA: | Miss E Bushell (trwy asiantaeth) |
| Dosbarth Lles: | Mr G Jones (A) Mrs C Canham (C) Hyd at Rhagfyr 2022 |
| Clerc ysgol: | Mrs R Morgan |

**Arweinydd Her y Consortiwm: Mrs Carys Amos**

**Niferoedd disgyblion —Medi 2022**

Meithrin: 14
Derbyn: 15
Blwyddyn 1: 20
Blwyddyn 2: 18
Blwyddyn 3: 13
Blwyddyn 4: 10
Blwyddyn 5: 15
Blwyddyn 6: 24

**Dyddiadau'r tymor 2022—2023**

| Tymor | Tymor yn cychwyn | Hanner Tymor | | Diwedd tymor |
|---|---|---|---|---|
| **Tymor yr Hydref** | Llun Medi 5 2022 | Llun Hydref 31 2022 | Gwener Tachwedd 4 2022 | Gwener Rhagfyr 23 2022 |
| **Tymor y Gwanwyn** | Llun Ion 9 2023 | Llun Chwefror 20 2023 | Gwener Chwefror 24 2023 | Gwener Mawrth 31 2023 |
| **Tymor yr Haf** | Llun Ebrill 17 2023 | Llun Mai 29 2023 | Gwener Mehefin 2 2023 | Llun Gorffennaf 24 2023 |

Gwyl y Banc : Llun 1af o Fai 2023 + 8fed o Fai 2023

**Diwrnodau hyfforddiant i staff (Dim Ysgol i'r disgyblion)**

05/09/22 – Hyfforddiant i staff
25/11/22 – Hyfforddiant i staff
23/12/22 - Hyfforddiant i staff
17/02/23– Hyfforddiant i ysgolion clwstwr Bro Edern
31/03/22— Hyfforddiant i staff
24/07/22— Hyfforddiant i staff

**Rhoddion i Elusen**

Plant Mewn Angen - Trefnodd yr Ysgol weithgareddau hwyliog ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen ym mis Tachwedd. Roedd pawb wedi dod i'r ysgol yn gwisgo smotiau neu byjamas a chodwyd £222.80 tuag at yr achos da

.

Apêl Wcráin – Trefnodd y cyngor ysgol ddiwrnod i godi arian ar gyfer argyfwng Wcráin lle bu'r holl ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol drwy gydol y dydd a phob plentyn yn mynd â hadau blodau haul mewn i'w wylio'n tyfu fel atgof o flodyn cenedlaethol Wcráin a symbol o heddwch. Gyda'n gilydd rydym yn codi £402.50

## Datblygiadau’r cwricwlwm a gweithgareddau amrywiol

**Cofid 19**

Roedd hon yn flwyddyn anodd arall gyda nifer o ddisgyblion a staff yn gorfod hunan-ynysu oherwydd Covid 19. Bu staffio yn anodd iawn, ond yn ffodus ni fu'n rhaid i ni gau unrhyw ddosbarthiadau.

**Cwricwlwm i Gymru / Cysylltiadau gydag Ysgol Gyfun Bro Edern**

Mae holl ysgolion clwstwr Bro Edern wedi bod yn cydweithio dros y tair blynedd diwethaf i greu cwricwlwm newydd yn unol â Chwricwlwm i Gymru sydd yn statudol ers mis Medi 2022. Cynhelir cyfarfodydd lle mae aelodau staff perthnasol yn eu mynychu'n rheolaidd i gynllunio gwahanol agweddau o'r cwricwlwm newydd.

**Ysgolion Iach**

Mae plant yn y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hannog i ddod â darn o ffrwyth yn ddyddiol a chael llaeth am ddim bob dydd. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae disgyblion yn cael eu hannog i ddod â ffrwythau i'r ysgol yn ddyddiol i'w bwyta yn ystod amser chwarae.
Mae pob plentyn hefyd yn cael ei annog i ddod â photel o ddŵr i'r ysgol yn ddyddiol. Mae dŵr yfed ar gael i bob plentyn drwy gydol y dydd.
Gofynnwn i rieni sy'n paratoi pecynnau bwyd i'w plant gefnogi polisi bwyta'n iach yr ysgol trwy beidio â chynnwys siocled, losin ac ati yn y bocs bwyd.
Mae Addysg Iechyd yn elfen sylweddol ac annatod o'r cwricwlwm i bob disgybl fel eu bod yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion iechyd ac yn datblygu'r sgiliau a'r agweddau priodol sy'n arwain at ffordd gyfrifol ac iach o fyw.

**Diwrnod y llyfr**

Cafodd yr holl ddisgyblion hwyl yn dathlu darllen gyda llawer o weithgareddau hwyliog wedi eu trefnu a daeth i'r ysgol wedi eu gwisgo fel eu hoff gymeriadau o lyfrau. Pwrpas y diwrnod oedd hybu darllen a dangos bod darllen yn gallu bod yn hwyl.

**Canmlwyddiant Urdd Gobaith Cymru**

Buom yn dathlu Urdd Gobaith Cymru eleni gyda phawb yn dod i'r ysgol wedi'u gwisgo mewn coch, gwyn, a gwyrdd ar Ionawr 25 ac cawsant hwyl a chyfrannu tuag at dorri record byd drwy ganu Hei Mistar Urdd.

**Eisteddfod**

Cynhaliodd yr ysgol ei Eisteddfod flynyddol a buom yn mwynhau gwrando ar ddoniau nifer o'n disgyblion. Roedd yn hyfryd gweld llawer o'n disgyblion yn cynrychioli'r ysgol eleni yn Eisteddfod Clwstwr yr Urdd.

**Senedd Ysgolion Cymraeg Caerdydd**

Members of the school council were given the opportunity to attend the first meeting of the new Cardiff Welsh medium schools’ Senedd in July. They had the opportunity to visit the 10 Senedd and to vote electronically in the chamber at Tŷ Hywel. This will continue next year.

## Ymweliadau ac Ymwelwyr

**Ymweliadau Addysgiadol**

Hyfryd o'r diwedd oedd gallu dychwelyd i ymweliadau addysgiadol y flwyddyn academaidd hon a dechreuodd y flwyddyn gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn mynd ar daith i Fae Caerdydd er mwyn dechrau ar eu gwaith ar hanes y Bae a'i ddatblygiad dros y blynyddoedd. Treuliodd Blwyddyn 2 amser ym Mharc Bute hefyd gyda Blynyddoedd 1 a'r Derbyn yn dysgu am hanes y cartrefi yn Sain Ffagan.

Dysgodd Blwyddyn 6 am sut i gadw eu hunain yn ddiogel drwy weithdai ar ddigwyddiadau'r 'Crucial Crew'. Roedd hyn yn cynnwys diogelwch dŵr, diogelwch tân, diogelwch rheilffyrdd a llawer mwy.

Fel rhan o'u gwaith yn y dosbarth aeth blwyddyn 1 am dro yn yr ardal leol gan edrych ar y cartrefi a'r siopau o fewn y gymuned leol.

I orffen y flwyddyn mynychodd ein disgyblion iau y theatr i fwynhau'r sioe 'Gangsta Granny' a mwynhaodd y disgyblion ysgol isaf daith i Draeth y Barri a chastell Formon.

**Ymwelwyr**

Trefnodd y staff nifer o ymwelwyr â'r ysgol eleni. Treuliodd Blwyddyn 5 a 6 amser gyda Dr Susan Davies a soniodd wrth y plant am daith ei thaid i fyw ym Mae Teigr.

Cynhaliodd y Frigâd Dân eu sesiynau blynyddol gyda Blynyddoedd 2 a 5 a mwynhaodd y disgyblion wlychu ceir y staff yn y maes parcio gyda dŵr.

Dechreuodd yr Urdd sesiynau gemau ar ôl ysgol i'n disgyblion ysgol uchaf eleni a bydd y rhain yn parhau y flwyddyn nesaf. Fel rhan o'u cwrs ym Met Caerdydd, mynychodd myfyrwyr yr ysgol i ddysgu ychydig o wersi dawns i ddisgyblion. Mynychodd nyrsys yr ysgol am eu profion sgrinio blynyddol ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen a hefyd gweinyddu'r brechiadau ffliw i bob disgybl ysgol. Cynhaliodd PC Davies rai sesiynau gyda'r holl ddisgyblion yn trafod gwahanol ffyrdd i gadw'u hunain yn iach a diogel.

Yn ystod ein wythnos crefyddau yn nhymor yr haf roedd y disgyblion nid yn unig wedi ymweld ag addoldai ond hefyd wedi cwrdd ag ymwelwyr o'r cymunedau crefyddol a oedd wedi dysgu'r plant am eu ffordd o fyw. Bu'r disgyblion yn ymweld ag Eglwys yr Holl Saint yng Nghyncoed a Mosg Dal Ur Isla. Bu aelodau o'r gymuned Islam a Siciaeth Caerdydd yn ymweld â ni hefyd,a dysgu rhai sgiliau criced i'r plant.

Fel rhan o waith eleni gyda'r 'Prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol' enillodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 gyfoeth o gyfleoedd yn gweithio gyda'r artist Yusuf Ismail ar eu prosiect 'My People, My Pentwyn'.

Ym mis Mai 2022 ymwelodd Estyn â'r ysgol a chawsom ein calonogi o ddarllen eu canfyddiadau.

Mae adroddiad Estyn ar gael ar wefan yr ysgol i chi ei ddarllen.

## Cysylltiadau â'r gymuned

**Beicio**
Cafodd ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 cyfle I ymarfer eu sgiliau beicio a chymryd rhan yn eu hyfforddiant hyfedredd beicio.

**Into Film**
Fe lwyddon ni i ddychwelyd i dripiau i'r sinema gyda Into Film eleni gyda Blwyddyn 5 a 6 yn cael cyfle i weld ffilm am Greta Thunberg.

**Kerbcraft**
Dysgodd Blwyddyn 2 hefyd sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar y ffyrdd trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diogelwch y ffordd gyda thîm Kerbcraft.

**Ysgol Gyfun Bro Edern**
Bu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion greu cysylltiadau â'u hysgol uwchradd eleni drwy wersi Ffrangeg bob pythefnos i ddisgyblion blwyddyn 6, treuliwyd 2 ddiwrnod pontio yn Ysgol Bro Edern a hefyd fe wnaethom groesawu disgyblion o Ysgol Bro Edern a ddarparodd sesiynau amrywiol i'r disgyblion ar draws yr ysgol fel rhan o'u cwrs BAC. Mwynhaodd y disgyblion rai gweithgareddau chwaraeon a drefnwyd gan ddisgyblion Bro Edern eleni.

**Cadw Cymru'n Daclus**
Fe wnaeth disgyblion blynyddoedd 5 a 6 sicrhau eu bod yn helpu i gadw'n cymuned yn daclus drwy gymryd rhan yng nghynllun Cadwch Gymru'n Daclus a chasglu llond bagiau o sbwriel ar draws yr ardal leol.

**Tafwyl**
Roedd hi'n braf bod nôl yn cefnogi gŵyl flynyddol Menter Caerdydd yng Nghastell Caerdydd lle bu ein disgyblion cyfnod sylfaen yn diddanu rhieni a gofalwyr yng ngŵyl Tafwyl. Roedd eu canu'n bleser i bawb ac roedd llawer wedi aros i fwynhau'r gweithgareddau oedd ar gael am ddim yn ystod y digwyddiad deuddydd.

**Deintyddion ysgol**
Hefyd eleni rydym wedi croesawu deintyddion yr ysgol yn ôl sy'n helpu hyfforddi a chefnogi staff gyda chadw dannedd ein disgyblion yn lân. Buom yn ffodus hefyd ar ennill ymweliad gan Dewi'r Ddraig a fu'n cyflwyno tystysgrif i ddisgybl o flwyddyn 1 ar ennill cystadleuaeth 'Rhaglen Sŵn'.

## Cysylltiadau â rhieni

### Mabolgampau
Cynhaliwyd ein diwrnod mabolgampau blynyddol yr haf hwn ac roedd yn bleser gweld rhieni a gofalwyr yn dychwelyd i'r ysgol i gefnogi eu plant.

### Cyflwyniadau i rieni newydd
Eleni, roedd modd i ni groesawu rhieni newydd i'r dosbarthiadau Meithrin a Derbyn i'r ysgol wrando ar gyflwyniad am yr ysgol.  Roedd yn gyfle da i rieni a gofalwyr holi cwestiynau am gychwyn eu plentyn/plant i fyd addysg yn yr ysgol.

### Gwasanaeth a phicnic gadael blwyddyn 6
Roedd hi'n hyfryd cael cyfle eleni I ddisgyblion blwyddyn 6 gynnal Panto i'w teuluoedd i fwynhau cyn iddynt symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg yn Ysgol Bro Edern.  Cawsant hefyd fwynhau picnic ar gae'r ysgol a chyflwynwyd anrhegion i'r rhai oedd yn gadael drwy roddion gan y Ffrindiau (CRhA).

### Adrodd i rieni
Cynhaliwyd nosweithiau rieni yn ystod tymor yr Hydref a'r Gwanwyn ac fe roddwyd adroddiad ysgrifenedig i rieni ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

### Gwersi Cymraeg
Roedd cyfle i rieni ddysgu Cymraeg eleni.  Drwy gydweithio â Choleg Caerdydd a'r Fro dechreuodd rhai o'n rhieni gwrs ar ddysgu Cymraeg i helpu i gefnogi eu plant ymhellach. Da iawn chi.

### Ffrindiau (CRhA)
Bu'r Ffrindiau yn eithriadol o brysur yn ystod rhan ola'r flwyddyn ac o fewn cyfnod byr trefnwyd arwerthiant cacennau, diwrnod gwallt gwyllt, helfa wyau Pasg, sesiynau gwneud torchau'r Pasg a ffair haf.  Gyda'r holl weithgareddau hyn maent wedi casglu cyfanswm o £1799.89.  Aeth yr arian tuag at brynu dau gazebo newydd ar gyfer misoedd yr haf a pyst pêl-droed ar gyfer iard yr ysgol.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

### Nod

Sicrhau bod disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol yn cael y cyfleoedd gorau posibl i dderbyn cwricwlwm eang a chytbwys. I gwrdd ag anghenion addysgol pob disgybl.

Mae Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yr ysgol yn cysylltu yn rheolaidd â phob athro/athrawes ddosbarth drwy gydol pob tymor gan fonitro cynnydd y disgyblion a nodi pa ddisgyblion sydd yn peri pryder. Byddant yn cydweithio â'r athro/athrawes ddosbarth i gynllunio'r Cynllun Addysg Unigol(CAU) Mae'r ysgol yn gartref i ddosbarth lles yr Awdurdod Lleol. Mae'r disgyblion yn treulio un tymor yn y dosbarth ac yna gyda chefnogaeth y dosbarth lles yn dychwelyd yn ôl i'w hysgolion cartref. Mae dyddiadau pontio yn ogystal trwy gydol y broses. Gweledigaeth y dosbarth yw i gynnal a chefnogi anghenion lles a iechyd meddwl y disgyblion. Mae'r dosbarth lles hefyd yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion i ddatblygu eu sgiliau rhifedd a llythrennedd. Mae pwyslais hefyd ar ehangu a datblygu sgiliau cymdeithasol y disgyblion. Mae'r ysgol yn derbyn arian o ddwy ffynhonnell ar gyfer ADY sef y gyllideb a'r arian ychwanegol a geir ar gyfer disgyblion sydd ar gamau uwch y cod ymarfer. Dilynir canllawiau'r Cod Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes, yn unol â Deddf Addysg 1993. Mae'r Ysgol yn cael cymorth a chyngor y Gwasanaeth Cynnal Disgyblion ac mae athrawon ymgynghorol y sir yn ymweld â'r ysgol yn achlysurol.

Mae'r polisi yn manylu ar sut mae disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu hadnabod a sut mae'r cymorth angenrheidiol ychwanegol yn cael ei ddarparu. Mae'r Ysgol yn sicrhau bod bob plentyn yn cael cyfle I ddilyn pynciau'r cwricwlwm yn llawn hyd eithaf ei allu/gallu. Y mae'r plant ag ADY yn cael eu hintegreiddio yn llawn i fywyd ysgol. Gwerthfawrogir cyfraniad pob plentyn at bob agwedd ar fywyd yr Ysgol. Mewn achos o gwyn gan rieni fe fydd cyfle iddynt fynd â'u cwyn at y Pennaeth. Os na ellir datrys y broblem yna fe fydd y gwyn yn cael ei throsglwyddo at y llywodraethwyr a'r Awdurdod Addysg Leol. Mae amser yn cael ei ddarparu o fewn yr Ysgol ar gyfer hyfforddi staff ac er mwyn rhaeadru gwybodaeth drwy'r CADY. Cedwir cofnod o'r cyrsiau ac mae'r Ysgol yn atgyfeirio disgyblion at athrawon ymgynghorol am gefnogaeth pellach yn ol angen.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes Bolisi Cydraddoldeb yn ogystal â Pholisi GwrthFwlio ar wahân ac mae'r Llywodraethwyr a'r Pennaeth yn ymwybodol o'u dyletswydd i hyrwyddo hil, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, oedran ac iaith yn eu cwricwlwm, dysgu a gwasanaethau fel yr hyrwyddir yn ein gweledigaeth ysgol "Gan ddathlu ein hamrywiaeth; pob cefndir a gallu, pob crefydd, rhywoliaeth a hil, cawn ddatblygu disgyblion sy'n teimlo'n hyderus yn eu crwyn eu hunain." Mae'r ddau bolisi a grybwyllwyd eisoes yn diffinio 'bwlio', 'troseddau casineb', 'am digwyddiadau casineb' ac 'aflonyddu' yn glir. Mae'r ysgol yn cofnodi ac yn monitro 'troseddau a digwyddiadau casineb' a sut y cânt eu datrys. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol ac awdurdod lleol gofnodi ac adrodd ar bob digwyddiad canfyddedig sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhedeg adroddiadau tymhorol yn ymwneud â'r holl gategorïau. Pwrpas adrodd ddigwyddiadau yw galluogi casglu gwybodaeth am nifer a natur y digwyddiadau ac adnabod tueddiadau sy'n datblygu. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio mewn ffordd gefnogol i ddatblygu a rhannu arfer da. Heb gasglu a chofnodi gwybodaeth, mae'n anodd cael darlun cywir o faint o fwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu neu fesur pa mor effeithiol yw strategaethau i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes yn sicrhau y bydd ethos yr ysgol yn rhoi i'r plant yr amgylchedd iawn i dyfu'n aelodau o gymdeithas aml-ddiwylliannol gan barchu eraill a dangos diddordeb yn eu buddiannau. Mae'n bwysig eu cynorthwyo i barchu ffyrdd eraill o fyw; i'w gwneud yn ymwybodol bod ffyrdd o fyw moesol a bwriadol sydd yn gyffredin i bob cenedl a diwylliant; ac i fod yn garedig a thrugarog wrth bawb beth bynnag fo'u cefndir diwylliannol.

**Presenoldeb a Phrydlondeb**

Targed Presenoldeb yr Ysgol oedd 95%. Ni chyflawnwyd hwn yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf gyda presenoldeb o 89.77%.

Ceir cysylltiad amlwg rhwng diffyg presenoldeb a diffyg cyflawniad. Dylai disgyblion ddod i'r ysgol bob diwrnod ysgol lle gallent. Dylai rhieni/gwarchodwyr annog eu plant i fynychu'r ysgol a phwysleisio'r angen i fod yn bresennol er mwyn cyrraedd eu potensial. Os nad yw disgybl yn bresennol yn yr ysgol, gofynnir i rieni/warchodwyr ffonio'r ysgol ar ddiwrnod yr absenoldeb er mwyn rhoi gwybod nad yw eu plentyn yn yr ysgol. Er mwyn sicrhau fod y disgybl yn ddiogel gartref a bod yna reswm dilys pan nad yw'r disgybl yn yr ysgol, gweithredir system o gysylltu â rhieni ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb a phob diwrnod arall os nad oes rheswm wedi ei rhoi am yr absenoldeb, e.e. sâl am rhai diwrnodau ayb. Bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni/gwarchodwyr disgyblion sydd yn absennol drwy ffonio unwaith mae'r gofrestr wedi cau. Disgwylir i rieni/warchodwyr sicrhau eu bod nhw'n mynd ar wyliau teuluol yn ystod gwyliau ysgol. Mae'r ysgol yn ymrwymedig i bolisi canolog y Sir o beidio awdurdodi gwyliau yn ystod tymor ysgol. Os yw disgybl yn mynd ar wyliau nad yw wedi cael ei awdurdodi gan yr ysgol yna cyfrifir fel absenoldeb heb awdurdod.

Yng Nghymru, mae deddfwriaeth (Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013) wedi rhoi pwerau newydd i awdurdodau lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) i rieni plant a phobl ifanc sy'n absennol o'r ysgol a/neu unedau cyfeirio disgyblion yn gyson, a hynny heb awdurdodiad.

Yn yr achosion isod mi fydd yr ysgol yn gwneud cais i'r Gwasanaeth Lles Addysg gyflwyno HCB :

- Pan fo o leiaf 10 'sesiwn' heb awdurdodiad (sef 5 diwrnod ysgol) yn ystod y tymor presennol (nid oes yn rhaid iddynt fod yn olynol);
- Disgyblion yn cyrraedd ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben yn gyson h.y. mwy na 10 sesiwn yn ystod y tymor presennol;
- Pan fydd rhiant/gofalwr wedi methu â chysylltu â'r ysgol a/neu'r Gwasanaeth Lles Addysg i geisio gwella presenoldeb, ond nad oes camau wedi'u cymryd i gyflwyno cosb yn y llys;
- Cyfnod o absenoldeb o'r ysgol oherwydd gwyliau nas awdurdodwyd gan yr ysgol;
- Mae disgybl wedi dod i sylw'r heddlu yn rheolaidd yn ystod oriau ysgol ac mae'n absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol

**Polisïau a Phrosbectws**

Rhoddir Prosbectws i rieni pan dderbynnir disgyblion i'r ysgol am y tro cyntaf. Adolygir polisïau ysgol yn rheolaidd mewn ymgynghoriad â'r staff a'r llywodraethwyr. Mae'r holl bolisïau ar gael i'w gweld yn yr ysgol gan drefnu gyda'r Pennaeth o flaen llaw.

**Adeiladau/ Iechyd a Diogelwch**

Mae'r Llywodraethwyr yn falch iawn o'r ffordd y mae'r disgyblion ac ymwelwyr yn gwneud defnydd o'r adeilad. Mae'r adeilad yn un i fod yn falch ohono, gyda'r adnoddau modern diweddaraf. Mae'r plant yn ddiolchgar am yr holl waith ac mae'r amgylchedd yn cynnig cyfleoedd i bob plentyn. Mae angen i bob ymwelydd i'r ysgol fynd at y brif fynedfa er mwyn cael mynediad i'r adeilad ac i arwyddo mewn ac allan o'r safle. Mae pob iard ar dir yr ysgol yn addas a phob giât wedi'i chloi yn ddiogel yn ystod y dydd. Mae gan yr ysgol bolisi Iechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i holl staff,

disgyblion ac ymwelwyr i’r ysgol.

**Cyfleusterau**

Mae gan yr ysgol y cyfleusterau toiled angenrheidiol i ddisgyblion mewn ysgol o’i maint ac maent yn cael eu glanhau a’u harchwilio ar ddechrau a diwedd pob diwrnod ysgol a thrwy gydol y dydd hefyd.

**Cyllid**

Mae datganiad ariannol y flwyddyn 2021/22 wedi ei atodi i’r adroddiad hwn a bydd gwybodaeth am y flwyddyn ysgol hon ar gael o’r ysgol yn ystod tymor y gwanwyn. Mae gwybodaeth ariannol yn ymwneud â’r ysgol ar gael i’w harchwilio yn yr ysgol, ddim ond I chi drefnu gyda’r Pennaeth o flaen llaw.

**Treuliau Llywodraethwyr**

Ni chyflwynwyd ceisiadau am dreuliau.

**Argymhellion Estyn 2022**

A1 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion

A2 Cryfhau darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol er mwyn diwallu anghenion pob disgybl yn llawn

## Blaenoriaethau ysgol 2022/23:

**BLAENORIAETH 1:** Gwella dealltwriaeth a sgiliau llythrennedd trwy: ddatblygu ‘Uwch Sgiliau Darllen’ y disgyblion trwy weithredu’r 8 ymddygiad darllen a gwella medrau ysgrifennu disgyblion ar draws yr ysgol.

**BLAENORIAETH 2:** Datblygu sgiliau rhifedd a rhesymu disgyblion wrth ddilyn cynllun mathemateg y clwstwr

**BLAENORIAETH 3:** Gweithredu Cwricwlwm i Gymru a pharhau i ddatblygu staff wrth gyd-gynllunio, addasu a datblygu’r cwricwlwm ar gyfer holl ysgolion y clwstwr. Datblygu gweithdrefnau asesu ar gyfer yr ysgol/ clwstwr

**BLAENORIAETH 4:** Uwch-sgilio staff mewn strategaethau cyffredinol a’r gweithdrefnau ADY newydd. Darparu ymyrraethau cyson ar draws yr ysgol i gau bylchau lleferydd, darllen, ysgrifennu a rhifedd.